Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Deiniolen
# Yr Hen Feithrinfa
# Deiniolen
# Gwynedd
# LL55 3LT

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014**

**gan**


**Mr Wil Williams**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Deiniolen yn lleoliad meithrin cofrestredig a sefydlwyd ddeugain mlynedd yn ôl mewn adeilad sydd gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi.  Mae'n darparu addysg cyn-ysgol i blant pentref Deiniolen a'r ardal wledig o'i gwmpas.

Mae'r lleoliad yn derbyn plant o bob gallu a chefndir i'r sesiynau.  Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nac o dras ethnig yn mynychu'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn darparu sesiynau o ddwy awr a phum munud am bum bore'r wythnos ar gyfer plant dwy a hanner i dair oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini.  Er bod chwe phlentyn yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol nid oeddynt i gyd yn bresennol yn y lleoliad adeg yr arolygiad..

Cymraeg yw'r iaith a siaredir gartref gan y rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad.  Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Mae plant yn cael eu haddysgu gan arweinydd a dwy ymarferydd.  Maent oll wedi'u cymhwyso'n briodol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yng Ngorffennaf 2013 a chan Estyn yn Chwefror 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau'r holl blant yn dda ac yn eu hannog i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da;
- darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd;
- ymarferwyr yn disgwyl llawer gan blant ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt fod yn weithredol yn eu dysgu;
- deilliannau asesiadau'n cael eu defnyddio'n effeithiol iawn i gynllunio ar gyfer y dyfodol;
- pwyslais cryf ar i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, ac i fod yn onest a theg;
- ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir i bob plentyn, yn gyson dda;
- ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau; a'r
- lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- arweinyddiaeth effeithiol yn creu synnwyr cryf o ddiben ac yn hybu a chynnal gwelliant parhaus;
- y pwyllgor rheoli yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n gydwybodol ac yn cefnogi'r lleoliad yn effeithiol;
- trefniadau cadarn ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant;
- ystod eang o bartneriaid yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau da a lles plant ;
- adnoddau dysgu o ansawdd da sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol;
- adroddiad hunan-arfarnu'r lleoliad o ansawdd da; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1. Cynyddu'r adnoddau ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfthrebu.
A2. Datblygu'r ardal y tu allan ymhellach.
A3. Rhoi mwy o ystyriaeth i farn plant yn y broses hunan-arfarnu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**
Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau'r holl ystod o blant yn dda ac yn eu hannog i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da. Mae dysgu wedi ei seilio ar gynlluniau cwricwlaidd manwl sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a gofynion y chwe maes dysgu, yn gryf. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn ddychmygus i sbarduno diddordeb plant a'u hannog i arbrofi â phrofiadau newydd. Caiff blant gyfleoedd yn ddyddiol i wneud dewisiadau ynghylch dysgu eu hunain ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Maent yn ymweld â'r gymuned leol yn rheolaidd ac yn dysgu llawer oddi wrth ymwelwyr â'r lleoliad. Enghraifft dda o hyn yw'r ymweliad gan gyn-chwarelwr fu'n rhannu ei brofiad gyda phlant.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn gydlynus ac wedi'u hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau dysgu pob plentyn. Yn ystod sesiynau, caiff plant eu hannog i siarad am eu profiadau ac i esbonio beth wnaethant yn y gwahanol ardaloedd dysgu. Mae hefyd disgwyl iddynt wrando'n ystyrlon ar gyfraniadau eu cyfoedion.

Mae'r gornel ddarllen ddeniadol yn galluogi'r plant i fanteisio ar ystod eang o ddeunyddiau darllen ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ymddwyn fel darllenydd, boed hynny wrth wrando at oedolyn yn darllen neu edrych ar lyfrau'n annibynnol.

Mae cyfleoedd da mewn nifer o'r ardaloedd dysgu i blant ddefnyddio gwahanol gyfryngau i greu marciau i bwrpas, megis i ysgrifennu llythyr neu i lunio rhestr.

Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau rhifedd plant. Maent wedi dysgu nifer o rigymau rhif ar y cof ac yn mwynhau cydgyfrif gwahanol setiau o wrthrychau. Mae gweithgareddau megis bwydo gorchmynion i degan electronig yn cyfrannu'n dda tuag at gynyddu dealltwriaeth plant o siâp a gofod a hefyd o werth cymharol wahanol rifau.

Mae diffyg adnoddau addas yn cyfyngu gallu'r plant i ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn llawn.

Trwy brofiadau ysgogol megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, caiff blant gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu parch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerth-chweil i blant ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol. Mae cymryd rhan mewn dathliadau megis Dydd Gŵyl Dewi,

yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o ddiwylliant, gwyliau a thraddodiadau Cymru yn llwyddiannus.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth drwyadl o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn disgwyl llawer gan blant o bob gallu ac yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd gwerthfawr iddynt fod yn weithredol yn eu dysgu. Trwy gynllunio manwl, llwydda'r ymarferwyr i greu cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a rhai gaiff eu hysgogi neu eu harwain gan oedolion. Mae'r amrywiaeth eang o strategaethau addysgu a ddefnyddir, er enghraifft gwaith grŵp neu waith unigol, ynghyd â'r pwyslais sylweddol a roddir ar ddysgu trwy chwarae, yn sicrhau ymglymiad pob unigolyn i'r dasg dan sylw. Mae ffocws clir i gymorth ac ymyrraeth ymarferwyr. Maent yn adnabod y plant yn dda fel unigolion ac yn addasu eu dulliau dysgu ar gyfer hynny. Mae ymarferwyr yn fodelau iaith da eu hunain ac yn defnyddio holi'n grefftus er mwyn herio syniadau plant a symud dysgu yn ei flaen.

Mae'r ymarferwyr yn asesu'r plant yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr ac yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau'n ofalus i fesur cynnydd pob unigolyn trwy gydol ei amser yn y lleoliad. Maent yn defnyddio deilliannau asesiadau'n effeithiol iawn i adnabod anghenion unigol plant a hefyd i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol. Trwy nosweithiau agored, sgyrsiau anffurfiol gydag ymarferwyr a thrwy dderbyn albwm o luniau eu plentyn ar waith yn yr ardaloedd dysgu, caiff rhieni wybodaeth ddiddorol a chyflawn am gynnydd eu plant yn y chwe maes dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r trefniadau effeithiol sy'n bodoli ar gyfer cefnogi iechyd a lles plant yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad cyffredinol plant ac yn cefnogi eu dysgu'n effeithiol. Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae'r profiad dyddiol gaiff plant o gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn cyfrannu'n dda tuag at godi eu lefelau ffitrwydd.

Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, ac i fod yn onest a theg. Mae hyn yn help mawr i'r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i blant trwy 'Helpwr Heddiw' i ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'r arfer dyddiol o ddweud gweddi ar ddiwedd sesiynau ynghyd â chyfraniad plant i wasanaeth Sul Y Cofio yn cyfrannu'n gryf tuag at eu datblygiad personol ac ysbrydol.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer ail-gylchu ac arbed gwastraff.

Mae'r cynllun newydd sydd wedi cael ei fabwysiadu gan y lleoliad yn ddiweddar ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ymagweddau plant ac ar eu gallu i fod yn fwy ystyriol o blant eraill o'u cwmpas.

Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu'n gyflym a didrafferth yn y lleoliad.  Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau.  Mae ganddynt ddealltwriaeth dda ynghylch sut i gael mynediad at gymorth proffesiynol i blant a rhieni.  Caiff anghenion dysgu plant eu nodi'n fanwl pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad a bydd ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir.  Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch.  Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Nodwedd amlwg iawn o'r lleoliad yw'r amgylchedd dysgu diddorol a grëir ynddo a'r cyfleoedd a gaiff pob plentyn i ddatblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Ac eithrio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu sy'n cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol o'r ardal y tu allan, yn arbennig ar gyfer datblygu medrau corfforol plant.  Fodd bynnag, mae'r ardal yn rhy eang a heb ei datblygu'n llawn fel ardal ddysgu.  Gwna'r ymarferwyr ddefnydd pwrpasol iawn o adnoddau a phobl yn y gymuned i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth.  Mae'r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n helaeth.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Trwy ymroddiad a brwdfrydedd yr arweinydd, mae'r lleoliad wedi llwyddo i greu ethos cadarnhaol dros ben ble mae plant a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.  Mae ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cyffredin am ddysgu, ymddygiad a pherthnasau ac maent yn cydweithio'n effeithiol iawn i sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau cenedlaethol eraill yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.  Mae'r synnwyr cryf o ddiben sydd yn y lleoliad yn hybu a chynnal gwelliant yn effeithiol.  Mae dysgu ac addysgu yn cael eu rheoli'n dda, ac mae polisïau'r lleoliad yn cael eu gweithredu'n effeithiol.  Yn ystod sesiynau, mae gan staff ddealltwriaeth eglur o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n gydwybodol.  Mae'r berthynas gadarnhaol iawn gyda phlant a rhieni yn cyfrannu'n gryf tuag at greu synnwyr o gymuned.

Mae disgwyliadau ar gyfer sicrhau gwelliant yn uchel gyda'r arweinydd yn cefnogi staff yn dda ac yn gosod her i bawb i wneud eu gorau.

Mae gan y pwyllgor rheoli wybodaeth dda am berfformiad y lleoliad ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau'n gydwybodol. Mae'n cefnogi'r lleoliad fel cyfaill beirniadol ac yn

ddylanwadol mewn cynnal safonau uchel a gosod blaenoriaethau. Mae gan swyddogion y pwyllgor weithdrefnau effeithiol ar gyfer rheoli a gwerthuso perfformiad staff.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda a chydag anogaeth yr arweinydd, yn hunan-arfarnu ac yn archwilio ffyrdd i wella’n barhaus. Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant. Mae hunan-arfarniad yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni a’r pwyllgor rheoli ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i blant fynegi barn am eu profiadau dysgu.

Mae adroddiad hunan-arfarnu’r lleoliad o ansawdd da. Gwnaeth y lleoliad ddefnydd effeithiol o’r wybodaeth ar gyfer llunio cynllun gweithredu a rhoi strategaethau ar gyfer gwella ar waith.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau da a lles plant. Caiff rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad a chymerir camau gweithredol gan ymarferwyr i'w cynnwys yn yr holl weithgareddau a drefnir. Mae llawlyfr rhieni diweddar yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am bolisïau a gweithdrefnau’r lleoliad ac yn cynnwys cyngor defnyddiol ynghylch sut y gall y rhieni gefnogi eu plant. Mae gan y lleoliad gysylltiadau addas gyda’r ysgol gynradd gyfagos ac mae trefniadau priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth asesu a rhannu arferion da.

Mae'r cydweithio agos rhwng y lleoliad ac athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau. Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant.

Mae’r cysylltiadau da iawn sydd gyda nifer o sefydliadau yn y gymuned leol yn cyfoethogi profiadau dysgu plant yn sylweddol ac yn cyfrannu’n dda tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol. Mae hyn wedi’u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae’r sesiynau hyfforddi hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt rannu eu harfer gydag ymarferwyr o leoliadau eraill.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth dda o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

# Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |